

**MOLD TOWN COUNCIL  
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall  
Earl Road  
Mold  
Flintshire  
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532  
Fax: 01352 755804



[www.moldtowncouncil.org.uk](http://www.moldtowncouncil.org.uk)

Neuadd y Dref  
Ffordd yr Iarll  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532  
Ffacs: 01352 755804

29 April 2020

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gyngorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **5.00pm ar ddydd Mercher 6 Mai, 2020** trwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom.

Yn ddiffuant,

A handwritten signature in blue ink, appearing to be 'A. Jones', is written over a faint blue line.

Y Clerc a Swyddog Cyllid

**AGENDA**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O FUDD**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**4. PENDERFYNIADAU A WNAED DAN BWERAU BRYD**

4.1 Derbyn a chymeradwyo rhestr o benderfyniadau brys a wnaed yn ystod cyfnod y cyfyngiadau diweddar sicr o ganlyniad i'r COVID-19.

4.2 Derbyn a nodi penderfyniadau Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Ebrill 2020 (attached)

4.3 Cymeradwyo'n ffurfiol Cofnodiain cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020 (yn atodedig – cytunwyd eisoes o dan Bwerau Argyfwng)

## **5. CYDADRODDIAD Y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**

Derbyn cydadroddiad y Swyddogion ar y datblygiadau diweddaraf (ynghlwm).

## **6. ARCHWILIAD DIWEDD Y FLWYDDYN A BLYNYDDOL 2019-20**

Nodi bod darfod Meddalwedd Rialtus ar ddiwedd y flwyddyn yn gyflawn erbyn hyn ac y gall y broses ar gyfer yr Archwiliad Mewnol ac Allanol ddechrau bellach (drafft y Ddychweleb (ariannol) Flynyddol ynghlwm).

## **7. ASESIAD RISG ARIANNOL 2020 A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2020/21**

Ffurfioli cymeradwyo a mabwysiadu (fel y cytunwyd dan Bwerau Brys uchod) y canlynol

(a) yr Atodlen Asesu Risg Ariannol; a

(b) Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (copïau ynghlwm)

## **8. YSTYRIED GRANTIAU CYMORTH ARIANNOL I BOBL A SEFYDLIADAU YN YR WYDDGRUG**

Ystyried y rhestr atodol o Gymorth Ariannol / Grantiau sydd ar gael i Grwpiau Gwirfoddol a Mudiadau Elusennol - adroddiad y Swyddog Busnes ac Adfywio.

## **9. CYFARFODYDD – Y CYNGOR, PWYLLGORAU A'R CYFARFOD BLYNYDDOL**

Trafod ffordd ymlaen a threfnu cyfarfodydd hyd y gellir rhagweld a chynnal y Cyfarfod Blynyddol o bell.

## **10. ETHOL MAER**

Ystyried ethol Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig nesaf (yn amodol ar ganlyniad 9 uchod).

## **11. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Nodi'r adroddiad atodedig.

## **12. CYFRIFON / TALIADAU**

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu yn ystod Mis 12 a Mis 1 newydd, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â'r ddogfen a ddsbarthwyd yn flaenorol sy'n dweud yn fanwl beth yw pwerau cynghorau lleol.

## **13 CYNLLUN TALEBAU'R WYDDGRUG – CYDADRODDIAD y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**

Ystyried ymgymryd â chynllun yn Yr Wyddgrug (ynghlwm).

SYLWER:

Caiff aelodau'r wasg a'r cyhoedd wyllo'r cyfarfod hwn (ond heb gyfranogi) trwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref.